Healthcare Inspectorate Wales

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Canolfan Ddeintyddol Whites

Dyddiad arolygu: 25 Gorffennaf 2016

Dyddiad cyhoeddi: 11 Tachwedd 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-7250-1


© Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Cyd-destun .......... 3

3. Crynodeb .......... 4

4. Canfyddiadau .......... 5

Ansawdd Profiad y Claf .......... 5

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 8

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 12

5. Y Camau Nesaf .......... 14

6. Methodoleg .......... 15

Atodiad A .......... 17

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Whites yn Bryn Melyn, 3 Heol yr Orsaf, Radur, Caerdydd, CF15 8AA ar 25 Gorffennaf 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Canolfan Ddeintyddol Whites yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a sut roedd Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygiad) 2011 yn diwallu'r safonau gofal a amlinellir yn Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu’r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Whites yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Radur Caerdydd.  Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Mae Canolfan Ddeintyddol Whites yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys; dau ddeintydd, dau hylenydd, pedair nyrs ac un derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol preifat.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod Canolfan Ddeintyddol Whites yn darparu gofal diogel ac effeithiol ac roeddent yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith i amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wedi dweud bod tîm y practis wedi gwneud iddynt deimlo'n gartrefol ac roeddent yn fodlon ar y gofal yr oeddent wedi'i dderbyn.
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Roedd cyfarpar digonol yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn amlwg yn lân ac yn daclus.
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio sganiau pelydr-X yn ddiogel.
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Dogfennaeth gweithdrefnau dadheintio.
- Storio a chadw cofnod o gyffuriau a chyfarpar a ddefnyddir mewn achos brys.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwnaethom ganfod tystiolaeth i ddangos bod y practis yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion.Mynegodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad fod tîm y practis wedi gwneud iddynt deimlo'n gartrefol ac roeddent yn fodlon ar y gofal roeddent wedi'i dderbyn.Gwnaethom argymell y dylid gwneud diweddariadau i'r weithdrefn gwyno.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> *"Mae'r deintyddion bob amser yn drylwyr ac yn helpu gyda chwestiynau."*
>
> *"Rydw i wastad wedi cael triniaeth a gofal ardderchog yn y clinig.*
>
> *"Amgylchedd hyfryd, cyfeillgar ac mae'r staff yn barod iawn i helpu"*
>
> *"Mae holl aelodau'r practis yn broffesiynol iawn - bodlon iawn"*

<u>Gofal gydag urddas</u>

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar, urddasol a phroffesiynol. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn derbyn, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff.

Roedd taflen yn disgrifio'r practis ar gael ar gyfer y cleifion ac roedd gan y practis wefan. Roedd hyn yn golygu bod gan y cleifion fynediad at wybodaeth berthnasol, mewn amryw fformatau. Roedd rhestrau prisiau ar gyfer triniaethau wedi'u harddangos yn y man aros.

<u>Gofal amserol</u>

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Dywedwyd wrthym fod system apwyntiadau hyblyg ar waith, ac y gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw ac ar sail argyfwng. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael

eu gweld gan y deintyddion. Dywedodd y sawl a oedd wedi profi oedi nad oeddent wedi aros yn hir iawn. Disgrifiodd y staff y broses o hysbysu cleifion pe byddai eu deintydd yn hwyr, neu'n absennol yn annisgwyl, ar ddiwrnod eu hapwyntiad.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Roedd cerdyn bach iawn a oedd yn cynnwys rhywfaint o fanylion practis wedi'i arddangos ar ddrws y practis. Gwnaethom argymell bod yr arwydd yn cael ei wneud yn fwy a bod rhifau argyfwng triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau yn cael eu cynnwys. Roedd neges peiriant ateb y practis yn cynnwys gwybodaeth addas.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid arddangos arwydd addas yn cynnwys manylion practis a rhifau argyfwng y tu allan i'r clinig.***

<u>Cadw’n iach</u>

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn cydnabod bod angen hybu iechyd er mwyn cefnogi llesiant eu cleifion. Roedd amryw daflenni a phosteri yn hybu iechyd y geg a llesiant cyffredinol. O edrych ar yr holiaduron a sgwrsio â chleifion, gwelwyd eu bod o'r farn eu bod yn cael digon o wybodaeth. Fodd bynnag gwnaethom argymell bod taflenni gwybodaeth ynghylch peidio ag ysmygu ar gael.

<u>Gofal unigol</u>

Roedd gan y practis bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth cyfredol. Roedd hyn yn dangos bod y practis wedi cydnabod amrywiaeth ei gleifion a'i fod wedi ystyried ei gyfrifoldebau yn unol â deddfwriaethau Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Roedd mynediad da i'r practis ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd. Roedd un toiled at ddefnydd y cleifion a oedd yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

Mae'r practis yn cadw nodiadau cleifion ysgrifenedig yn y cypyrddau tu ôl i ddesg y dderbynfa. Gwnaethom argymell y dylid gosod cloeon ar y cypyrddau hyn ar gyfer sicrhau cyfrinachedd cleifion.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen cadw cypyrddau ffeilio sy'n cynnwys gwybodaeth am gleifion ar glo i sicrhau cyfrinachedd.***

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis system i gasglu adborth gan gleifion. Gwelwyd llyfr a chofnod cwynion ac roedd tystiolaeth bod sylwadau llafar yn cael eu nodi'n briodol.

Roedd gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig, wedi'i harddangos yn y dderbynfa, ar gyfer pob claf i godi cwynion. Roedd y weithdrefn yn cynnwys cyfeiriadau a rhifau ffôn y sefydliadau yr oedd cleifion yn gallu cwyno iddynt, fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys digon o wybodaeth o ran yr amserlen y gallai cleifion ddisgwyl iddynt ymdrin â'u cwyn. Yn ogystal, gwnaethom argymell bod y practis yn darparu taflenni cwyno wedi'u personoli i gleifion fynd â nhw adref yn ogystal â thaflenni gwybodaeth y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis ddiweddaru'r polisi/gweithdrefn gwyno i sicrhau ei fod yn cynnwys amserlenni ar gyfer datrys cwynion.Dylid darparu taflenni gwybodaeth yn benodol ar gyfer y practis yn yr ystafell aros.***

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, ond gwnaethom argymell dilysu'r broses ddadheintio'n well.Roedd angen gwella'r system o storio a chadw cofnod o gyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys.Roeddem yn fodlon bod yr offer radiograffig yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn ddiogel.**

**Gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion a chanfod eu bod yn ddigon manwl ar y cyfan.**

<u>Gofal diogel</u>

Gwnaethom ganfod tystiolaeth i ddangos bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal er mwyn sicrhau y caiff dyfeisiau trydanol bach eu defnyddio'n ddiogel. Roedd diffoddwyr tân wedi cael eu gosod yn strategol, ac roeddent wedi cael eu gwirio'n rheolaidd. Roedd y cywasgydd yn cael ei archwilio a'i wasanaethu'n rheolaidd. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a dywedwyd wrthym fod gwastraff nad yw'n beryglus yn cael ei gasglu gan y cyngor. Roedd rhywfaint o wastraff clinigol yn cael ei storio o dan y grisiau yn y practis y gallai cleifion yn gallu cael mynediad iddo. Rydym yn awgrymu felly ei fod yn cael ei symud i gynhwysydd ar glo y tu allan i'r adeilad. Storiwyd biniau ar gyfer offer miniog o dan y sinc yn y meddygfeydd; gwnaethom argymell bod y rhain yn cael eu symud i'r fainc gwaith neu'n cael eu gosod ar y wal.

***Yr hyn y mae angen ei wella.***

***Dylid trosglwyddo'r holl wastraff clinigol yn syth i'r cynhwysydd storio tu allan.***

**Dylid storio cynwysyddion offer miniog ar y fainc gwaith neu eu gosod ar y wal.**

Roedd y practis yn lân ac yn daclus, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda iawn. Roedd yr adeilad wedi'i oleuo'n dda a'i wresogi'n briodol. Roedd y cyfleusterau clinigol mewn trefn dda yn gyffredinol fodd bynnag; ym meddygfa'r hylenydd roedd angen i'r seliwr ar yr arwyneb gwaith yn y gornel gael ei adnewyddu er mwyn galluogi glanhau effeithiol ac ym meddygfa'r prif ddeintydd, roedd gorchudd trydanol dros soced trydanol nas ddefnyddir yn rhydd ac rydym yn argymell gwirio hyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella.***

***Adnewyddu'r seliwr o gwmpas yr arwyneb gwaith yng nghornel meddygfa'r hylenydd***

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Cynhaliwyd gweithdrefnau dadheintio gan ddefnyddio dulliau glanhau â llaw cyn sterileiddio. Roedd gan y practis olchwr-dadheintiwr ond roedd hwn wedi torri ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd y chwyddwydr cyfannol yn y pod dadheintio wedi torri hefyd. Dywedodd y deintydd wrthym fod dyddiad ar gyfer atgyweiriadau wedi cael ei drefnu.

Gwelsom dystysgrifau archwilio ar gyfer yr awtoclafau a oedd yn dangos eu bod wedi'u profi i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn. Gwnaethom argymell y dylent wella'r dull o ddilysu eu rhaglen gynnal a chadw ddyddiol ar gyfer pob peiriant awtoclaf. Gwnaethom awgrymu y dylent gadw llyfrau cofnodi fel yr awgrymwyd gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, i n sicrhau bod gwiriadau dyddiol yn cael eu cofnodi a bod yr holl stribedi prawf yn cael eu cadw. Gwnaethom hefyd argymell bod hyfforddiant unigol ar weithdrefnau dadheintio yn cael ei gynnal a bod protocolau ar gyfer gweithdrefnau dadheintio'n cael eu harddangos ar y wal yn yr ystafell ddadheintio.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod y dull o ddilysu'r rhaglenni cynnal a chadw dyddiol ar gyfer pob peiriant awtoclaf yn glynu wrth y canllawiau cyfredol.Dylid arddangos y protocolau ar gyfer y gweithdrefnau dadheintio ar y waliau yn yr ystafell ddadheintio.***

Roedd digon o offer ar gael a chawsant i gyd eu storio a'u dyddio'n briodol fel bod staff yn gwybod bod offer yn ddiogel i'w defnyddio ar gyfer triniaethau'r cleifion. Roedd cyfarpar diogelu personol megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael. Roedd sinc benodol ar gyfer golchi dwylo.

Roedd offer dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng ar gael yn y practis. Gwnaethom argymell bod y cyffuriau'n cael eu rhoi mewn cydau ar wahân fel eu bod yn gallu dod o hyd iddynt yn haws mewn argyfwng. Yn ogystal mae angen i'r tyllau aer a'r masgiau yn y pecyn dadebru gael eu rhoi mewn cwdyn a'u dyddio. Dylai'r practis gadw llyfr cofnodion i gofnodi dyddiadau dod i ben pob cyffur a'r dyddiadau oedd cyffuriau ac offer brys wedi cael eu gwirio, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU).

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis roi system ar waith i sicrhau bod pob cyfarpar a chyffuriau brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio.***

Roedd y practis wedi sefydlu polisi dadebru a gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i wneud dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd y staff y gwnaethom gyfweld â nhw'n ymwybodol o'u rolau yn ystod argyfwng meddygol. Roedd person cymorth cyntaf enwebedig.

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion agored i niwed. Gwelsom bolisi amddiffyn plant a pholisi ar gyfer diogelu oedolion agored i niwed. Roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith er mwyn i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd pob aelod o staff y gwnaethom eu cyfweld eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn. Roedd rhaglen sefydlu ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff er mwyn helpu i sicrhau eu bod wedi'u hyfforddi'n ddigonol.

Gwelsom gofnodion priodol yn ymwneud â statws imiwnedd Hepatitis B ar gyfer pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis, sy'n dangos bod y practis yn cymryd camau i ddiogelu cleifion a staff rhag heintiau.

Gwelsom rywfaint o dystiolaeth a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd a'u cynnal a chadw i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Proseswyd y pelydrau-X yn ddigidol. Roedd cyfarwyddiadau a hysbysiadau o fannau dan reolaeth yn cael eu harddangos er diogelwch staff a chleifion.  Gwnaethom awgrymu bod y cynghorwr amddiffyn rhag ymbelydredd yn cael ei ychwanegu at reolau lleol i gydymffurfio â nodiadau canllaw ar gyfer Ymarferwyr Deintyddol ar gyfer Defnyddio Offer Pelydr-X yn ddiogel, sy'n nodi y dylai'r person cyfreithiol gynnwys y cynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd a'i fanylion cyswllt yn y rheolau lleol. Roedd yr holl staff a oedd yn ymwneud â chymryd radiograffau wedi cwblhau hyfforddiant i fodloni’r safonau ar gyfer gweithwyr sy'n cynnal y gweithdrefnau hyn. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod y cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd yn cael ei ychwanegu at reolau lleol.***

<u>Gofal effeithiol</u>

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir ac yn monitro'i gynnydd yn barhaus. Gwelwyd cofnodion o archwiliadau sicrhau ansawdd blynyddol ar gyfer pelydrau-x. Cwblhawyd archwiliad rheoli heintiau blynyddol. Canfuom nad oedd staff clinigol yn derbyn adolygiadau ffurfiol gan gymheiriaid, a fyddai'n helpu datblygiad ymhellach ac yn sicrhau bod y safonau da presennol yn cael eu cynnal. Rydym yn argymell bod y staff clinigol yn cymryd rhan mewn Archwiliad Clinigol a Phrosiect Adolygu gan Gymheiriaid.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl fach o gofnodion cleifion ar gyfer y ddau ddeintydd yn y practis a chanfuom fod safon cadw cofnodion y practis yn dda ar y cyfan. Trafodwyd cynlluniau triniaeth yn rheolaidd gyda'r claf a chofnodwyd opsiynau triniaeth. Roedd pob radiograff a gymerwyd wedi'u cyfiawnhau ar gyfer cynllunio triniaeth. Gwnaethom nodi un maes y gellid ei wella; nid oedd cofnodion meddygol yn cynnwys digon o fanylion am hanes cymdeithasol cleifion ac rydym yn awgrymu bod mwy o hanes cymdeithasol yn cael ei drafod a'i gofnodi'n fwy manwl mewn cofnodion cleifion.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Darparwyd rheolaeth y practis gan un o berchnogion y practis.Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi ymroi i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y staff yn gweithio'n dda fel tîm gyda chyfarfodydd staff bob bore. Cynhaliwyd arfarniadau staff blynyddol.Gwelsom fod angen rhai gwelliannau i'r polisïau a'r gweithdrefnau a welwyd yn y practis.**

Un o bartneriaid y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd tîm o staff cymwys a chyfeillgar yn y practis. Roedd y cyfathrebu'n dda yn fewnol a dangosodd y staff ymroddiad i ofalu am eu cleifion.

Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod y staff yn gallu cael hyfforddiant perthnasol i'w swyddogaethau a'u datblygiad proffesiynol parhaus. Gwnaethom awgrymu bod y deintyddion yn ailsefydlu cysylltiadau gydag eraill yn yr ardal i sicrhau y gellid sefydlu system adolygu gan gymheiriaid.

Roedd y cyfathrebu'n dda ymysg y staff yn y practis. Dywedwyd wrthym yn ystod cyfweliadau â'r staff bod cyfarfodydd ffurfiol yn digwydd bob bore ac roeddent yn teimlo eu bod yn gallu trafod pryderon neu anghenion hyfforddi gyda'r prif ddeintydd ar unrhyw adeg pe bai angen. Cwblhawyd gwerthusiadau ffurfiol yn flynyddol ar gyfer pob aelod o staff.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru), roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC fodd bynnag, roedd angen diweddaru un o'r tystysgrifau cofrestru a oedd wedi'u harddangos i gynnwys cyfeiriad cyfredol AGIC. Roedd yswiriant indemniad priodol wedi'i arddangos.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Diweddaru tystysgrif gofrestru AGIC ar gyfer y prif ddeintydd.***

Canfuom weithdrefn cynefino ar waith yn y practis er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff newydd yn derbyn hyfforddiant cynefino addas.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau yn y practis, a gwelsom dystiolaeth bod y rhan fwyaf yn cynnwys digon o fanylder ac wedi'u trefnu'n dda. Fodd bynnag, roedd diffyg manylder yn y Polisi Amddiffyn Plant a'r Polisi Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed. Gwnaethom argymell hefyd bod pob polisi a gweithdrefn yn cael ei lofnodi a'i ddyddio gan yr aelod o staff oedd

wedi'i adolygu yn lle cynnwys datganiad wedi'i lofnodi yn y ffeil yn nodi bod pob polisi a gweithdrefn yn cael eu diweddaru ym mis Ionawr bob blwyddyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Ychwanegu mwy o fanylion perthnasol i'r Polisïau Amddiffyn Plant ac Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed***

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur sut a phryd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghanolfan Ddeintyddol Whites yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.


Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[1] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[2] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

---

1 http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

2 http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Canolfan Ddeintyddol Whites

## Dyddiad yr arolygiad: 25 Gorffennaf 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6 | Dylid arddangos arwydd addas sy'n cynnwys manylion y practis a rhifau argyfwng tu allan i'r clinig. | Safonau Iechyd a Gofal 3.2, 4.2 | | | |
| 6 | Mae angen cadw cypyrddau ffeilio sy'n cynnwys gwybodaeth am gleifion ar glo i sicrhau cyfrinachedd. | Safonau Iechyd a Gofal 3.5, 4.2 Safonau'r Cyngor | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Deintyddol Cyffredinol 4.5 | | | |
| 7 | Mae'n rhaid i'r practis ddiweddaru'r weithdrefn/polisi cwyno er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys amserlenni ar gyfer datrys cwynion. Dylid darparu taflenni gwybodaeth am gwynion ar gyfer y practis yn yr ystafell aros. | Safonau Iechyd a Gofal 6.3; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1, 5.3 | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 8 | Dylid trosglwyddo'r holl wastraff clinigol i'r cynhwysydd storio tu allan.<br><br>Dylid storio cynwysyddion offer miniog ar y fainc gwaith neu eu gosod ar y wal. | Safonau Iechyd a Gofal 2.1; Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 | | | |
| 8 | Adnewyddu'r seliwr o gwmpas yr arwyneb gwaith yng nghornel meddygfa'r hylenydd. | Safonau Iechyd a Gofal 2.1 & | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2.4; Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adrannau 6.46 | | | |
| 9 | Dylai'r practis sicrhau bod y dull o ddilysu'r rhaglenni cynnal a chadw dyddiol ar gyfer pob peiriant awtoclaf yn glynu wrth y canllawiau cyfredol. Dylid arddangos y protocolau ar gyfer y gweithdrefnau dadheintio ar y waliau yn yr ystafell ddadheintio. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru), Adran 14(2); Safonau Iechyd a Gofal 2.9 | | | |
| 9 | Mae'n rhaid i'r practis roi system ar waith i sicrhau bod pob offer a chyffuriau'n cael eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio. | Safonau Iechyd a Gofal 2.6 a 2.9; Safonau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 6.6.6; Cyngor Dadebru'r DU – canllawiau ar gyfer gofal deintyddol sylfaenol. | | | |
| 10 | Dylai'r practis sicrhau bod y cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd yn cael ei ychwanegu at reolau lleol. | Safonau Iechyd a Gofal 2.1 a 2.9; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000; Yr Awdurdod Gweithredol | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Iechyd a Diogelwch. Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol (NRPB), Tud. 52 adran A 4.5 | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 12 | Diweddaru tystysgrif gofrestru AGIC ar gyfer y prif ddeintydd. | Safonau Iechyd a Gofal 7.1 | | | |
| 13 | Ychwanegu mwy o fanylion perthnasol i Bolisïau Amddiffyn Plant ac Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed. | Safonau Iechyd a Gofal 2.1, 2.7; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 8.4, 8.5 | | | |

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw (llythrennau bras):** ..........................................................................................

**Teitl:** ..........................................................................................

**Dyddiad:** ..........................................................................................